


# YSGOLORIAETHAU MYNEDIAD

## Mynediad yn 2025



Fel y byddech chi'n ei ddisgwyl mewn prifysgol sy'n rhoi cryn bwyslais ar gefnogi myfyrwyr, mae Bangor yn awyddus i gynnig cymorth ychwanegol i fyfyrwyr.

Mae ystod o Ysgoloriaethau Mynediad blynyddol ar gael sy'n cynnig cefnogaeth ariannol ychwanegol i'r rhai sy'n rhagori yn yr arholiadau Ysgoloriaeth Mynediad. Mae rhai o'r ysgoloriaethau hyn yn agored i bob ymgeisydd tra mae eraill wedi'u cyfyngu i ymgeiswyr o ardaloedd daearyddol penodol neu ymgeiswyr am gyrsiau penodol. Mae unrhyw gyfyngiadau perthnasol wedi'u cynnwys yn y wybodaeth ar yr ysgoloriaethau unigol.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar-lein yw **Dydd Gwener, 31 Ionawr 2025** a chynhelir yr arholiad Ysgoloriaeth ar **Ddydd Mercher, 12 Chwefror 2025**. Cynhelir yr arholiad yn ysgol/coleg yr ymgeiswyr a **gofynnir i ymgeiswyr roi gwybod i'r aelodau staff perthnasol yn eu hysgol/coleg eu bod wedi gwneud cais ar gyfer y gystadleuaeth Ysgoloriaethau Mynediad.**

Anfonir manylion am drefniadau'r arholiad i'r ysgolion a cholegau sy'n cymryd rhan ddechrau mis Chwefror. Cyhoeddir canlyniadau'r Ysgoloriaethau ddiwedd mis Mawrth a bydd yr holl ymgeiswyr yn cael e-bost yn rhoi gwybod iddynt p'run a ydynt wedi bod yn llwyddiannus ai peidio.

Ymgeisiwch am ysgoloriaeth yma:

## DYDDIADAU I'W COFIO

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar-lein : Dydd Gwener, 31 Ionawr 2025**

**Dyddiad yr arholiad: Dydd Mercher, 12 Chwefror 2025**

# YSGOLORIAETHAU TEILYNGDOD BANGOR (HYD AT £3000)

Mae oddeutu 40 Ysgoloriaeth Teilyngdod o hyd at £3,000 yr un ar gael i'r rheini sy'n rhagori yn arholiadau Ysgoloriaethau Mynediad blynyddol y Brifysgol. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn yr Ysgoloriaeth yn ystod blwyddyn gyntaf eu cwrs ym Mangor.

I gael eich ystyried ar gyfer yr Ysgoloriaethau Teilyngdod ac Ysgoloriaethau Mynediad eraill, mae rhaid i chi:

- lenwi ffurflen gais yr Ysgoloriaethau Mynediad, ceisiadau yn agor 1 Hydref (dyddiad cau 31 Ionawr 2025)
- sefyll arholiad yn eich dewis bwnc (bydd yr arholiadau'n cael eu cynnal yn eich ysgol/coleg: dydd Mercher, 12 Chwefror 2025).

## MAE YSGOLORIAETHAU MYNEDIAD ERAILL YN CYNNWYS:

### (A) Ysgoloriaethau Academaidd

#### YSGOLORIAETHAU YSGOL Y GYFRAITH (£3000)

Bydd Ysgol Y Gyfraith yn cynnig un ysgoloriaeth ar gyfer ymgeiswyr sydd eisiau astudio unrhyw gwrs is-raddedig o fewn Ysgol Y Gyfraith. Mae'r Ysgoloriaeth werth £3000 ac fe'i telir ym mlwyddyn gyntaf y cwrs.

#### YSGOLORIAETH CRONFA'R NORMAL (£500)

Mae Ysgoloriaeth Cronfa'r Normal yn agored i ymgeiswyr sy'n dymuno astudio cwrs israddedig yn yr Ysgol Addysg. Telir y wobr o £500 ar ôl cofrestru ym mlwyddyn gyntaf y cwrs.

#### YSGOLORIAETHAU'R YSGOL CYFRIFIADUREG A PHEIRIANNEG (£1500)

Mae'r Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig yn cynnig wyth o ysgoloriaethau i rai sy'n dymuno dilyn unrhyw gwrs gradd israddedig yn yr Ysgol. Mae'r Ysgoloriaeth werth £1500 ac fe'i telir ym mlwyddyn gyntaf y cwrs.

### (B) Ysgoloriaethau Cynghorau Lleol

#### YSGOLORIAETH BAE COLWYN (£1500)

Noddir gan Gyngor Tref Bae Colwyn ac mae'n agored i ymgeiswyr sy'n byw yn yr ardal a gynrychiolir gan y Cyngor Tref (Bae Colwyn, Llandrillo-yn-Rhos a Hen Golwyn).

### (C) YSGOLORIAETHAU COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Cynigir ysgoloriaethau gwerth £3000 (dros dair blynedd) ar gyfer cyrsiau gradd lle bydd myfyrwyr yn dilyn 240 credyd neu fwy trwy gyfrwng y Gymraeg. I ymgeisio ar gyfer un o'r Ysgoloriaethau hyn ym Mangor, mae gofyn i chi sefyll ein arholiad Ysgoloriaethau Mynediad. Nodwch bydd dyddiad cau'r ysgoloriaeth ar 31 Ionawr 2025. Mae mwy o wybodaeth am Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gael ar eu gwefan sef: **colegcymraeg.ac.uk**

### (D) Ysgoloriaethau Cronfeydd Ymddiriedolaeth

Rhestrir rhai o'r gwobrau Ysgoloriaeth sy'n dod o dan y pennawd hwn isod. Sylwch efallai na fydd y gwobrau hyn ar gael bob blwyddyn

- **YSGOLORIAETH DR. WILLIAM JONES WILLIAMS (£1500)***
- **YSGOLORIAETH DR. E.T. DAVIES (£1500)***
- **YSGOLORIAETH JOHN HUGHES (£1500)***
- **YSGOLORIAETH RICHARD HUGHES (£1500)***
- **YSGOLORIAETH THOMAS HUGHES (£1500)***
- **YSGOLORIAETH WILLIAM PRITCHARD (£1500)***
- **YSGOLORIAETH LADY GLADSTONE (£1500)***

# YR ARHOLIAD

1. Cynhelir yr arholiad yn ysgolion neu golegau'r ymgeiswyr ar **Ddydd Mercher, 12 Chwefror 2025**. Bydd yn ofynnol i'r ymgeiswyr sefyll arholiad mewn un pwnc academaidd naill ai yn y bore neu yn y prynhawn. Mae cyn bapurau ar gael i'w gweld ar y wefan:
**www.bangor.ac.uk/ysgoloriaethaumynediad**

2. Cynigir arholiadau yn y pynciau canlynol:

   - Almaeneg
   - Astudiaethau Busnes
   - Astudiaethau Cyfryngau
   - Astudiaethau Theatr
   - Athroniaeth, Moeseg a Chrefydd
   - Bioleg
   - Cerddoriaeth
   - Cyfrifiadureg
   - Cymdeithaseg
   - Cymraeg (Iaith Gyntaf)
   - Cymraeg (Ail Iaith)
   - Daearyddiaeth
   - Dylunio a Thechnoleg
   - Economeg
   - Eidaleg
   - Electroneg
   - Ffiseg
   - Ffrangeg
   - Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer
   - Hanes (nodwch y maes llafur)
   - Iaith Saesneg
   - Iechyd a Gofal Cymdeithasol
   - Llenyddiaeth Saesneg
   - Mathemateg
   - Sbaeneg
   - Seicoleg
   - Troseddeg
   - Tsieinëeg
   - Y Gyfraith

   Fel arfer, bydd maes y pwnc yn debyg i faes llafur cyfatebol safon 'A' (Cyd-bwyllgor Addysg Cymru os yw'n arholi'r pwnc). Lle bo dewis o feysydd llafur, gofynnir i ymgeiswyr, ar ôl ymgynghori â'u hathrawon, nodi ar eu ffurflenni cais pa feysydd llafur y maent yn eu hastudio.

3. Mae manylion llawn meini prawf yr Ysgoloriaethau Mynediad a'r ffurflenni cais ar y wefan **www.bangor.ac.uk/ysgoloriaethaumynediad**. Dylir dychwelyd y ffurflenni cais erbyn **Dydd Gwener, 31 Ionawr 2025.**

4. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddarparu enw a manylion cyswllt Swyddog Arholiadau eich ysgol/coleg fel rhan o'r broses ymgeisio ar gyfer arholiad yr Ysgoloriaeth Mynediad.

5. Anfonir y papurau arholiad perthnasol i ysgolion/colegau yr ymgeiswyr ychydig ddyddiau cyn yr arholiad, a gofynnir i'r ysgolion/colegau arolygu'r arholiadau yn y modd priodol.

6. Cyhoeddir enwau'r ymgeiswyr llwyddiannus tua diwedd Mawrth. Nodwch, ni ddatgelir manylion ynghylch marciau ymgeiswyr.

# GWYBODAETH BWYSIG

a) Mae'r cynllun Ysgoloriaethau Mynediad yn agored i ymgeiswyr sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig (neu sydd â statws preswylio yn y Deyrnas Unedig at ddibenion talu ffioedd) ac sydd wedi astudio hyd at gyrsiau Lefel 3 a chan gynnwys y cyrsiau hynny.

b) Rhaid i ymgeiswyr wneud cais am gwrs lefel gradd neu gwrs lefel gradd gyda blwyddyn sylfaen ym Mhrifysgol Bangor.

c) Rhaid i ymgeiswyr y dyfernir ysgoloriaethau iddynt dderbyn Bangor fel dewis pendant neu ddewis wrth gefn trwy UCAS ac yna mynd ati i gofrestru ar gwrs ym Mhrifysgol Bangor yn y flwyddyn academaidd berthnasol er mwyn derbyn taliad yr ysgoloriaeth.

ch) Dylai'r rhai sy'n gwneud cais am ysgoloriaeth fel rheol sicrhau eu bod yn gwneud cais i UCAS cyn y dyddiad cau ar 31 Ionawr ac ni ddylent dderbyn cynnig yn bendant mewn unrhyw sefydliad arall nes cânt wybod am y penderfyniad ynghylch yr ysgoloriaeth.

d) Er mwyn derbyn taliad yr ysgoloriaeth, bydd disgwyl i'r ymgeiswyr llwyddiannus fodloni unrhyw ofynion mynediad amodol a nodir gan y Brifysgol yn y flwyddyn y gwnaed cynnig UCAS.

dd) Ni ellir gohirio Ysgoloriaethau Mynediad i flwyddyn academaidd arall yn y dyfodol ac ni ellir eu talu nes bydd yr ymgeisydd wedi cofrestru ar gwrs ym Mhrifysgol Bangor yn y flwyddyn academaidd berthnasol.

e) Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ddal unrhyw ddyfarniad yn ôl os canfyddir nad oes ymgeisydd o deilyngdod digonol.

f) Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i rannu a chyfuno ysgoloriaethau a newid y symiau sy'n daladwy.

ff) Gwneir y mwyafrif o daliadau ysgoloriaeth mewn un rhandaliad ym mis Tachwedd.

g) Mae'r Brifysgol yn cyhoeddi enwau enillwyr yr ysgoloriaeth ac enwau eu hysgolion a'u colegau ar y wefan, ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn datganiad neu gyhoeddiad i'r cyfryngau - nodwch ar y ffurflen gais os nad ydych am roi cydsyniad i gyhoeddi'ch enw.



# YSGOLORIAETHAU CHWARAEON

Mae cynllun Ysgoloriaeth Chwaraeon Bangor yn cydnabod a chefnogi rhagoriaeth a chyrhaeddiad mewn chwaraeon. Nid yw'r Ysgoloriaethau, sy'n werth £3,000 y flwyddyn, wedi'u cyfyngu i unrhyw gamp neilltuol nac i fyfyrwyr ar unrhyw gyrsiau penodol. Yn y rhan fwyaf o achosion fodd bynnag, rhoddir blaenoriaeth i'r unigolion hynny a fydd yn gallu cynrychioli Prifysgol Bangor yng nghystadlaethau Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS).

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer eich ystyried ar gyfer Ysgoloriaeth Chwaraeon, rhaid i chi fod:

- Yn debygol o gyrraedd safle podiwm neu safle a fydd yn sgorio pwyntiau yn y bencampwriaeth BUCS briodol
- Yn gystadleuydd lefel Ewropeaidd, lefel y Gymanwlad neu lefel Byd yn eich camp neilltuol
- Yn cystadlu mewn camp neu ar lefel nad yw'n cynnig gwobrau ariannol.

I wneud cais am yr Ysgoloriaethau Chwaraeon, dylai ymgeiswyr UCAS lenwi ffurflen gais a'i ddychwelyd erbyn 31 Mawrth 2025. Cliciwch ar y isod er mwyn gweld y canllawiau a'r ffurflen gais.
https://www.bangor.ac.uk/cy/ysgoloriaethau-chwaraeon

# YMUNWCH Â'R SGWRS
ar y cyfryngau cymdeithasol.

Dewch o hyd i ni ar:

YouTube @prifysgolbangor

@prifysgolbangor

facebook.com/prifysgolbangor

@prifysgolbangor

**Gellir cael gwybodaeth pellach drwy gysylltu â:**


Recriwtio a Derbyniadau'r Deyrnas Unedig
Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd LL57 2DG


Mae croeso i chi gysylltu gyda'r Brifysgol yn Gymraeg neu Saesneg.


**Ff:** 01248 382005
**E:** marchnata@bangor.ac.uk
**G:** bangor.ac.uk/ysgoloriaethau



Mae'r Brifysgol yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod y wybodaeth a geir yn y llyfryn hwn yn gywir ar adeg ei argraffu (Hydref 2024).


PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY